Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: I'W GADARNHAU 56/2022
DYDDIAD CYHOEDDI: 02/08/2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Galw'r Farchnad ym Maes Twristiaeth Croeso Cymru - Iwerddon Mehefin 2022

ISBN Digidol 978-1-80364-450-69

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron

Adroddiad Ymchwil Llawn: Adroddiad Galw'r Farchnad Croeso Cymru – Iwerddon Mehefin 2022
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR 56/2022

Ar gael yn: ychwanegu url gwe
https://gov.wales/tourism-market-demand-reports-june-2022

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru,
Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: tourismresearch@gov.wales

# Cefndir a Methodoleg



# Cefndir

Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru sy'n gyfrifol am drefnu ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan gwyliau. Fel rhan o hyn, bob blwyddyn mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ymhlith ei farchnadoedd blaenoriaeth. Mae'r ymchwil a geir yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â Marchnad Iwerddon ac yn edrych yn fras ar:

- Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis gwyliau a gwyliau byr
- Mathau o gyrchfannau a phrofiadau a ffefrir ar wyliau a gwyliau byr
- Ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o gyrchfannau yn y DU ar gyfer gwyliau neu wyliau byr
- Canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr ac ymwybyddiaeth o gyrchfannau yng Nghymru
- Canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan gwyliau 'allan o'r tymor'
- Ymgysylltu â sianeli gwybodaeth a marchnata Croeso Cymru
- Agweddau at gynaliadwyedd mewn cyrchfannau twristiaeth
- Proffilio a demograffeg



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Methodoleg

Cysylltwyd â phreswylwyr Gweriniaeth Iwerddon trwy banel ar-lein y gellid ei gwblhau trwy gyfrifiadur bwrdd gwaith neu ddyfais symudol. I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i gyfranogwyr fodloni meini prawf sy'n eu gwneud yn bosibl i fynd ar drip dros nos i'r DU. Rhaid iddynt:

- Yn byw yng Ngweriniaeth Iwerddon
- Bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr – gan wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau tripiau dros nos eu hunain, neu eu gwneud gyda rhywun arall
- Bod yn debygol iawn/weddol debygol o gymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf

Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 22 Mehefin a 29 Mehefin 2022.

Cwblhawyd 604 o arolygon. Yna pwyswyd y data i fod yn gynrychioliadol o breswylwyr Gwyddelig sy'n debygol o fynd ar drip yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan sicrhau y gellir eu cymharu ag astudiaethau blaenorol. Pwysolwyd data yn ôl rhyw, oedran, gradd gymdeithasol a rhanbarth preswylio.

Cymerodd yr arolwg 25 munud ar gyfartaledd i’w gwblhau a chyflawnodd yr ymchwil gyfradd mynychder o 70%, o gymharu â 75% yn 2020. Mae hyn ynddo’i hun yn awgrymu bod maint marchnad Iwerddon ar gyfer teithio yn y DU wedi crebachu ers 2020.

Lle bo’n bosibl, gwneir cymariaethau â’r arolwg diwethaf o’r math hwn, a gynhaliwyd cyn y pandemig ym mis Ionawr 2020. Sylwer, gall rhai gwahaniaethau gael eu llywio gan newidiadau tymhorol mewn agweddau. Er y gall gwahaniaethau eraill ymwneud â phryderon ynghylch y pandemig neu'r argyfwng costau byw.

# Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn/1

Yn yr adroddiad hwn rydym yn edrych ar broffiliau ac agweddau nifer o wahanol gynulleidfaoedd:

Mae'r diffiniadau a ddefnyddir yn cynnwys:

**Bwriadwyr tripiau yn y DU:** Cyfanswm sampl yr arolwg. Preswylwyr Gweriniaeth Iwerddon sy'n debygol iawn neu'n weddol debygol o gymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**Bwriadwyr tripiau yng Nghymru:** Preswylwyr Gweriniaeth Iwerddon sydd yn bendant neu yn ôl pob tebyg yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf.

**Bwriadwyr tripiau yng Nghymru y tu allan i'r tymor:** Preswylwyr Gweriniaeth Iwerddon sy'n agored iawn neu'n weddol agored i gymryd gwyliau/gwyliau byr yng Nghymru y tu allan i brif dymor yr haf – hynny yw rhwng mis Medi a mis Ebrill.

Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well na 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant yn y cartref
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant yn y cartref
- **Oedran ymddeol:** 65+ oed.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn/2

Mae’r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys cyfeiriad at segmentau cynulleidfa fyd-eang VisitBritain. Mae’r rhain yn seiliedig ar ymchwil ar draws ei holl brif farchnadoedd targed i mewn i ddiffinio segmentau cynulleidfa fyd-eang a nodi’r cyfleoedd gorau ym mhob un o’r farchnad teithwyr rhyngwladol hynny. Mae cyfanswm o bum segment, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- **Ceiswyr antur:** Yn llawn ysbryd a heb anogaeth, maen nhw'n hoffi gwyliau llawn antur a chyffro
- **Archwilwyr:** Maent yn mwynhau'r awyr agored, safleoedd y mae'n rhaid eu gweld, ac yn cofleidio diwylliannau lleol ar gyflymder mwy hamddenol
- **Anturiaethwyr:** Maent yn byw i fynd oddi ar y llwybr sathredig, gan dreulio amser yn yr awyr agored a rhoi cynnig ar brofiadau newydd
- **Ceiswyr golygfeydd:** Mae'n well ganddyn nhw aros o fewn parth cysurus, gan ddewis dinasoedd yn hytrach na chefn gwlad, cynllunio ymlaen llaw
- **Dilynwyr Diwyllianol:** Yn ymwybodol o ddelwedd a brand, mae teithio'n cael ei weld fel symbol statws; maent yn hoffi cyrchfannau adnabyddus, diogel

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol



# Canfyddiadau allweddol (1)

**Bwriadau Tripiau yn y DU**

1. Mae 70% o breswylwyr Gweriniaeth Iwerddon yn dweud eu bod yn debygol o gymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn y blynyddoedd nesaf.
2. O'r rhain, mae bron i 3 o bob 5 (57%) yn debygol iawn o wneud hynny, ychydig yn is na'r 62% a nododd hyn yn 2020.
3. Mae tua hanner (52%) y gynulleidfa hon yn bwriadu cymryd eu gwyliau byr/gwyliau yn y DU eleni, gyda 31% arall yn bwriadu gwneud hynny y flwyddyn nesaf (hefyd yn is na 2020). Amseriad ymchwil fydd yn bennaf gyfrifol am y bwriad trip tymor byr is yn 2022 (mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ym mis Mehefin o'i gymharu ag adroddiad 2020 yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ym mis Ionawr). Fodd bynnag, mae data arall yn awgrymu y gallai'r gostyngiad mewn bwriad hefyd gael ei ysgogi gan ffactorau amgylchiadol, megis pryderon parhaus ynghylch COVID-19 a'r argyfwng costau byw.

**Tripiau a ffefrir yn y DU**

1. Fel yn 2020, mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn fwyaf tebygol o gymryd gwyliau/gwyliau byr yn y DU mewn dinas neu dref, ac yna 'tref hanesyddol neu dreftadaeth' ac 'arfordir neu harbwrs golygfaol'. Ac eithrio 'cyrchfannau glan môr traddodiadol', mae'r bwriad i fynd ar dripiau i'r rhan fwyaf o fathau o wyliau blaenllaw yn y DU wedi gostwng – o bosibl wedi'i ysgogi gan gyfuniad o ffactorau tymhorol, gofal teithio parhaus a phryderon ariannol cynyddol.

2. Mae dylanwadau cyrchfannau hefyd wedi newid ers 2020 – yn fwyaf nodedig, mae 'gwerth gwych am arian' wedi codi 19 pwynt canran a bellach dyma'r ail ddylanwad pwysicaf, ac 'mae'n hawdd teithio iddo a symud o gwmpas' yw'r prif beth pwysicaf. Mae goruchafiaeth y dylanwadau ymarferol hyn yn nodi newid o 2020 pan oedd rhesymau 'seiliedig ar gynnyrch' (fel 'tirnodau enwog ac atyniadau ymwelwyr' a 'chyrchfan sy'n gyfoethog mewn hanes a threftadaeth') yn drechaf.
3. 'Rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol' yw'r prif brofiad a ragwelir ar wyliau/wyliau byr yn y DU, ac yna 'ymweld â ffrindiau neu deulu' ac 'ymweld ag atyniadau awyr agored'. Yn gyson â chanfyddiadau blaenorol yn yr adroddiad hwn, mae 'atyniadau' a 'treftadaeth a diwylliant' yn llai apelgar i fwriadwyr tripiau yn y DU nag yn 2020.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (2)

**Perthnasoedd a chysylltiadau cyrchfan**

1. Yn gyson â 2020, mae bron i hanner (47%) bwriadwyr tripiau yn y DU wedi bod ar wyliau byr neu wyliau yng Nghymru o'r blaen, yr isaf o bob un o wledydd y DU – Lloegr uchaf ar 88%, ac yna Gogledd Iwerddon (74%) a'r Alban (57%). Yn gadarnhaol, fodd bynnag, mae galw nas bodlonir am drip yng Nghymru – nid yw 34% o'r bwriadwyr tripiau yn y DU erioed wedi ymweld ond â diddordeb mewn gwneud hynny.
2. Mae cynefindra â chyrchfannau'r DU yn cyfateb i ymweliadau blaenorol – Cymru yw'r wlad yn y DU sydd â'r cynefindra lleiaf, ychydig y tu ôl i'r Alban, ac yn sylweddol y tu ôl i Ogledd Iwerddon a Lloegr. Yng Nghymru, mae'r cynefindra uchaf â Chaerdydd – Eryri, gryn dipyn ar ei hôl hi.
3. Lloegr yw'r cyrchfan a argymhellir fwyaf ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU o fewn y DU, gyda Chymru yn '4ydd pell' – 9% yn nodi Cymru, o gymharu â 39% yn Lloegr, 25% yn yr Alban a 25% yng Ngogledd Iwerddon. Mae lefelau argymhellion cyrchfan yn dangos nad yw apêl cyrchfan o reidrwydd yn cyd-fynd â chynefindra. Er enghraifft, mae lefelau cynefindra Cymru a'r Alban yn gymharol debyg, ond mae'r Alban yn gyson yn sgorio'n sylweddol uwch ar argymhelliad a chysylltiadau brand eraill.
4. O ran mathau o gyrchfannau, mae Cymru yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â 'chefn gwlad a phentrefi golygfaol', 'antur mynyddig', 'gwyliau teithiol' ac 'arfordir a harbwrs golygfaol'.
5. Mae gan Gymru gysylltiadau is â 'dinasoedd a threfi mawr a chysylltiad cymharol isel â threfi hanesyddol a threftadaeth – dau 'fath o gyrchfan dewis sydd orau'.
6. O ran *dylanwadau* cyrchfannau, mae Cymru wedi'i chysylltu'n fwyaf â 'golygfeydd a thirweddau anhygoel', wedi'i dilyn gan fod â 'lleoedd gwych i'w harchwilio oddi ar y llwybr sathredig' a 'lleoedd tawel heb dorfeydd o bobl' – pob un ohonynt â phwysigrwydd cymharol uchel ymhlith bwriadwyr tripiau yn y DU.
7. Fodd bynnag, mae gan Gymru gysylltiadau is ar gyfer nifer o ddylanwadau â blaenoriaeth is – yn enwedig ar gyfer 'mae'n hawdd teithio iddo a symud o gwmpas', 'llety o ansawdd uchel', 'gwerth gwych am arian', 'lleoedd sy'n enwog am eu bwyd a'u diod' a 'sîn diwylliant ac adloniant ffyniannus.'
8. Mewn perthynas â phrofiadau, mae gan Gymru'r cysylltiadau uchaf â 'cherdded, heicio neu grwydro', 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car' a 'dysgu am hanes a diwylliant lleol' – pob un ohonynt yn 'brofiadau o bwysigrwydd uchel'.
9. Mae gan Gymru gysylltiadau is ag ystod o brofiadau sydd o ddiddordeb lefel ganolig ar wyliau gan gynnwys 'siopa arbenigol', 'mynychu cerddoriaeth fyw/gwyliau', 'profi bywyd nos' 'profiadau iechyd a lles'' ac 'ymweld â lleoliadau sy'n cael sylw ar y teledu, mewn ffilm neu lenyddiaeth'.
10. O ran 'teimladau', mae Cymru yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig ag ymlacio, darganfod ac antur – yn lleiaf tebygol o fod yn gysylltiedig â rhamant, cyffro a syndod.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (3)

**Ymweliadau â Chymru yn y 12 mis nesaf**

1. Mae 1 o bob 9 (11%) o'r rhai sy'n bwriadu teithio yn y DU yn dweud eu bod yn bendant yn bwriadu mynd ar drip yng Nghymru yn y 12 mis nesaf, gydag 1 o bob 5 (21%) arall yn nodi y byddant yn debygol o ymweld.
2. Cyn-nythwyr a theuluoedd yw'r cyfnodau bywyd sydd fwyaf tebygol o fod 'yn bendant yn bwriadu' cymryd gwyliau/gwyliau byr yng Nghymru yn y 12 mis nesaf – tua 1 o bob 6 yn bwriadu gwneud hynny.
3. Bwriadwyr tripiau yng Nghymru sy'n fwyaf tebygol o fod yn cynllunio eu trip yng Nghymru ym mis Medi, a mis Gorffennaf i fis Awst yw'r cyfnod amser a ffefrir fwyaf yn fwy cyffredinol.
4. Yn ogystal â 'gwerth gwych am arian' yn cynyddu mewn pwysigrwydd fel dylanwad cyrchfan, mae ffactorau ariannol yn rheswm blaenllaw pam na fydd hanner y bwriadwyr yn y DU yn ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn y 12 mis nesaf – 'cost tanwydd' a 'costau cynyddol gwyliau/hamdden', yw'r ddau brif reswm, gyda 'cyllid personol' yn bedwerydd.
5. Mae COVID-19 hefyd yn parhau i fod yn rhwystr, 18% yn nerfus am deithio oherwydd y feirws a 15% yn poeni am ei ddal neu ei ledaenu - cyfanswm o 28% ar lefel net.

**Ymweld â Chymru y tu allan i'r tymor**

1. Mae bron i hanner (45%) bwriadwyr tripiau yn y DU yn dweud eu bod yn 'agored iawn' i'r syniad o wyliau/gwyliau byr yng Nghymru y tu allan i dymor yr haf (rhwng mis Medi a mis Ebrill). Mae'r diddordeb ar ei gryfaf ym misoedd y Gwanwyn a'r Hydref, ac ar ei isaf ym mis Ionawr a Chwefror – er bod hyn yn atgynhyrchu'n fras patrymau ymgymerwyr tripiau hysbys.
2. Y tri phrif reswm dros apêl trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru yw 'mae llety yn rhatach' (66%), 'mae'n well gen i heddwch a thawelwch' (53%) a 'llai o bobl mewn cyrchfannau' (51%).
3. Mae'r rhai *nad ydynt* yn agored i ymweld â Chymru y tu allan i'r tymor yn fwyaf tebygol o gael eu digalonni gan y tywydd yr adeg honno o'r flwyddyn – bron i hanner yn nodi hyn, ac yna 'dyddiau a nosweithiau byrrach'. Mae traean o deuluoedd yn nodi 'llai o wyliau ysgol' fel rhwystr.
4. 'Cefn gwlad a phentrefi golygfaol' yw'r math o gyrchfan y byddai ymgymerwyr tripiau yn y DU gyda'r mwyaf o ddiddordeb ynddynt wrth ymweld â Chymru y tu allan i'r tymor, ac yna 'dinasoedd a threfi mawr' a 'threfydd hanesyddol a threftadaeth'.
5. Mae'r profiadau sy'n cael eu hystyried yn fwyaf diddorol ar wyliau y tu allan i'r tymor/gwyliau byr yng Nghymru yn gymharol gyson â 'dewisiadau profiad cyffredinol' ar wyliau/gwyliau byr yn y DU – 'rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol', 'ymweld â safleoedd treftadaeth neu atyniadau diwylliannol ', 'dysgu am hanes a diwylliant lleol' ac 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car' yw'r dewis mwyaf.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (4)

6. Mae lefel uchel o ddiddordeb mewn mynychu gwyliau ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru – 'gwyliau bwyd a diod' y mwyaf apelgar ac yna 'chwaraeon gwylwyr byw' a 'gwyliau neu gyngherddau cerddoriaeth fyw'.
7. Mae tripiau y tu allan i'r tymor yn fwyaf tebygol o gael eu treulio gyda phartner, yn aros mewn gwesty ac yn ymweld â Chaerdydd. Mae tripiau yn fwy tebygol o fod yn wyliau byr, gan gynyddu i wyliau hirach o 4+ noson ar gyfer ymddeolwyr. Mae diddordeb mewn penwythnosau hir yn ogystal â gwyliau canol wythnos.

**Deall Agweddau at Gynaliadwyedd**

1. Mae bwriadwyr i'r DU sy'n cynllunio trip i Gymru yn mynegeio'n uwch na'r cyfartaledd ar 'Hedonyddion cefnog' – segment sy'n arwydd o ddiddordeb mewn materion gwyrdd, ond sy'n blaenoriaethu profiadau (43% o gymharu â 25% ar gyfartaledd).
2. Mae yna ystod eang o gamau cynaliadwy y mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn credu y dylai busnesau twristiaeth ac ymwelwyr eu blaenoriaethu. 'Cyfleoedd ar gyfer ailgylchu neu leihau gwastraff', 'cefnogi'r ardal leol yn rhagweithiol', 'lleihau plastig untro ac 'ymrwymiad i flasu neu brynu cynnyrch lleol' yw'r prif flaenoriaethau.
3. Y camau gweithredu cynaliadwy y mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn fwyaf tebygol o'u 'gwneud eisoes' neu 'y byddent yn ystyried o ddifrif eu gwneud yw 'teithio y tu allan i oriau brig yn lle'r tymor brig', 'defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus' a 'rhoi blaenoriaeth i brynu gan gynhyrchwyr bwyd a diod lleol'.

# Demograffeg bwriadwyr tripiau yn y DU



# Rhyw a chyfnod bywyd bwriadwyr tripiau yn y DU

- Mae rhaniad rhyw bwriadwyr tripiau yn y DU yn gymharol gytbwys, a ‘theuluoedd’ yw’r cam bywyd mwyaf, ac yna ‘annibynwyr hŷn’.
- ‘Cyn-nythwyr’ (18%) ac ‘ymddeolwyr’ (17%) yw’r cyfnodau bywyd lleiaf ymhlith bwriadwyr tripiau yn y DU.

**Ffigur 1. Rhyw yr ymatebwyr (wedi’i bwysoli), Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 2. Cyfnod bywyd ymatebwyr, Canran, Yr holl ymatebwyr**




Cwestiynau demograffeg.
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

# Statws cyflogaeth a gradd gymdeithasol bwriadwyr tripiau yn y DU

- Mae hanner y rhai sy'n bwriadu tripiau yn y DU mewn cyflogaeth amser llawn, gydag 17% arall yn gweithio'n rhan-amser, ac 16% wedi ymddeol. Mae'r mwyafrif (62%) yn disgyn i raddau cymdeithasol ABC1.
- O gymharu â 2020, mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth amser llawn ac o berthyn i raddau cymdeithasol uwch.

**Ffigur 3. Statws cyflogaeth ymatebwyr, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 4. Gradd gymdeithasol yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran, Yr holl ymatebwyr**




X3a Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau? X4a. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau swydd y prif enillydd incwm yn eich cartref?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Agwedd at ‘argyfwng costau byw’ a chwymp segmentau Croeso Cymru

- Mae tri chwarter (75%) o fwriadwyr tripiau yn y DU naill ai wedi cael eu ‘taro’n galed’ gan yr argyfwng costau byw hyd yn hyn, neu ‘yn iawn ond rhaid iddynt fod yn ofalus’ (wedi’u hysgogi’n bennaf gan yr olaf), sy’n adlewyrchu pwyll ynghylch cyllid personol ac effaith bosibl ar ymddygiad mynd ar drip.
- Mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn fwy tebygol o berthyn i’r segment ‘ceiswyr antur’ ac yn llai tebygol o fod yn ‘ymweld â golygfeydd’ nag yn 2020. Mae ‘Anturwyr’ ac ‘Archwilwyr’ hefyd yn gyfran sylweddol o ymwelwyr posibl yn y DU.

**Ffigur 5. Effaith yr argyfwng costau byw hyd yn hyn, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 6. Segment ymatebwyr Croeso Cymru, Canran, Yr holl ymatebwyr**




X4c. Mae llawer o sôn wedi bod am sut mae’r ‘argyfwng costau byw’ wedi effeithio ar amgylchiadau ariannol pobl. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa UN o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich teimladau am eich sefyllfa eich hun, ar hyn o bryd? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhanbarth preswylio a pherthynas â Chymru

- O ran rhanbarth preswylio, mae bwriadwyr tripiau yn y DU wedi'u rhannu ar sail poblogaeth, gyda thua 3 o bob 10 yn byw yn Nulyn, Leinster a Munster, a bron i 1 o bob 5 yn byw yn Connaught-Ulster.
- Mae gan 16% o fwriadwyr tripiau yn y DU gysylltiadau o ryw fath â Chymru, 'mae ganddynt deulu a ffrindiau sy'n byw yno', y mwyaf amlwg gyda 9% yn disgyn i'r categori hwn.

**Ffigur 7. Rhanbarth tarddiad yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran Net, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 8. Perthynas â Chymru, Canran, Yr holl ymatebwyr**




Cwestiynau demograffeg. X9. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol sy'n berthnasol i chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

# Rhanbarth preswylio – RHESTR LAWN

- Ar lefel fwy gronynnog, Dulyn, Corc, Galway a Limerick yw'r pedair rhan yn Iwerddon sydd â'r gyfran uchaf o fwriadwyr tripiau yn y DU - sef dros hanner rhyngddynt.

**Ffigur 9. Rhanbarth tarddiad yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran Net RHESTR LAWN, Yr holl ymatebwyr**




Cwestiynau demograffeg. X9. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol sy'n berthnasol i chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dewisiadau trip



# Bwriad gwyliau/gwyliau byr y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf

- Mae tua 3 o bob 5 (57%) o fwriadwyr tripiau yn y DU yn ‘debygol iawn’ o gymryd gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf – ychydig yn is na ffigur 2020.
- Mae tua hanner (52%) y gynulleidfa hon yn bwriadu cymryd eu gwyliau byr/gwyliau yn y DU eleni, sy’n sylweddol is na 2020 pan gynhaliwyd yr ymchwil ym mis Ionawr. Er y bydd gostyngiad mewn bwriad tymor agos yn cael ei ysgogi gan amseriad ymchwil, mae ffactorau eraill (fel costau byw a gofal parhaus COVID-19) hefyd yn debygol o fod yn chwarae rhan. Yn gadarnhaol, fodd bynnag, gyda thraean (34%) heb archebu eu trip eleni eto, a 3 o bob 10 arall yn bwriadu ymweld â’r DU y flwyddyn nesaf, mae galw nas bodlonir cryf.

**Ffigur 10. Tebygolrwydd o gymryd gwyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 11. Gwyliau/gwyliau byr nesaf yn y DU, Canran, Yr holl ymatebwyr**




IRE-S7. Pa mor debygol neu annhebygol ydych chi o gymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
IRE-S8. Ym mha flwyddyn ydych chi'n debygol o gymryd eich gwyliau nesaf neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604


Llywodraeth Cymru Welsh Government
BVA BDRC

# Gwyliau/gwyliau byr nesaf yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- Teuluoedd sy'n dangos y tebygolrwydd uchaf o gymryd gwyliau yn y DU neu wyliau byr eleni, gydag annibynwyr hŷn yn dilyn yn agos. Ymddeolwyr yw'r rhai lleiaf tebygol.

**Ffigur 12. Gwyliau byr/gwyliau nesaf yn y DU eleni yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr**




IRE-S8. Ym mha flwyddyn ydych chi'n debygol o gymryd eich gwyliau nesaf neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

# Tripiau a fwriedir i'r DU yn ystod y 12 mis nesaf – fesul segment a rhanbarth

- Bwriadwyr tripiau yn y DU sy'n byw yn Connaught-Ulster a Munster sy'n dangos y tebygolrwydd uchaf o wyliau yn y DU neu wyliau byr eleni.
- Anturiaethwyr a Cheiswyr Antur yw'r segmentau sydd fwyaf tebygol o fynd ar daith i'r DU – Archwilwyr a Dilynwyr Golygfeydd yw'r rhai lleiaf tebygol o wneud hynny.

**Ffigur 13. Gwyliau byr/gwyliau nesaf yn y DU eleni yn ôl rhanbarth preswylio, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 14. Gwyliau byr/gwyliau nesaf yn y DU eleni yn ôl segment, Canran, Yr holl ymatebwyr**




IRE-S8. Ym mha flwyddyn ydych chi'n debygol o gymryd eich gwyliau nesaf neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Dulyn n=168; Connaught-Ulster n=105; Leinster n=163; Munster n=168; Anturiaethwyr n=136; Ceiswyr antur n=155; Archwilwyr n=143; Ceiswyr golygfeydd n=85; Dilynwyr Diwylliannol n=85

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Mathau o gyrchfan yr ystyrir o ddifrif ymweld â hi ar gyfer trip dros nos yn y DU*

- Yn debyg i 2020, 'dinasoedd a threfi mawr' yw'r math mwyaf poblogaidd o wyliau/gwyliau byr yn y DU gyda dros 2 o bob 3 (68%) yn eu dewis fel un o'r cyrchfannau y byddent yn ei ystyried o ddifrif yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. 'Trefi hanesyddol a threftadaeth', 'arfordir a harbwrs golygfaol' a 'chefn gwlad a phentrefi golygfaol' yw'r mathau nesaf o gyrchfannau mwyaf poblogaidd, er bod gan bob un ohonynt lai o hoffter nag yn 2020. Mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn ystyried o ddifrif bron i bedwar math o gyrchfan ar gyfartaledd.
- Gall gwahaniaethau gyda 2020 gael eu hysgogi gan ffactorau tymhorol, llai o ddiddordeb mewn trip yn y DU neu ffactorau eraill fel gofal teithio oherwydd COVID-19 a 'phryderon ariannol' cynyddol.

**Ffigur 15. Mathau o gyrchfannau lle yr ystyried gwyliau/gwyliau byr yn y DU o ddifrif yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr**




| Nifer cyfartalog y mathau o gyrchfan yr ystyrir | |
|---|---|
| **2022** | **2020** |
| 3.6 | 4.1 |

B1. Mae'r delweddau isod yn cynrychioli gwahanol fathau o gyrchfannau y mae pobl yn ymweld â nhw.
I ba rai, os o gwbl, y byddech o ddifrif yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604
*Sylwer: Gall gwahaniaethau gyda 2020 fod yn dymhorol gyda mathau o gyrchfannau haf yn fwy blaenllaw yn ymchwil diweddarach 2022

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Mathau o gyrchfanau yr ystyrir o ddifrif – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae rhywfaint o amrywiad yn y math o gyrchfan a ffefrir yn y DU yn ôl cyfnod bywyd. ‘Dinasoedd a threfi mawr’ yw’r math pennaf o gyrchfan ar gyfer pob cyfnod bywyd, er yn fwy felly ar gyfer ‘cyn-nythwyr’ ac ‘annibynwyr hŷn’. Mae teuluoedd yn mynegeio uchaf ar gyfer ‘trefi glan môr traddodiadol’ a ‘phentrefi/canolfannau gwyliau’, tra bod ‘cyfnodau bywyd hŷn’ fel ‘annibynwyr hŷn’ ac ‘ymddeolwyr’ yn mynegeio’n uwch ar gyfer ‘trefi hanesyddol a threftadaeth’, ‘arfordir a harbwrs golygfaol’ a 'cefn gwlad a phentrefi golygfaol'.

**Ffigur 16. Mathau o gyrchfannau yr ystyrir o ddifrif ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr**




B1. Mae'r delweddau isod yn cynrychioli gwahanol fathau o gyrchfannau y mae pobl yn ymweld â nhw. I ba rai, os o gwbl, o’r rhain yr ydych o ddifrif yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dylanwadau cyrchfan ar gyfer trip dros nos yn y DU*

- 'Mae'n hawdd teithio a symud o gwmpas' yw'r prif ddylanwad cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU, ac yna 'gwerth gwych am arian' - mae'r olaf wedi cynyddu'n sylweddol o ran pwysigrwydd ers 2020. 'Pobl sy'n groesawgar iawn' yw'r trydydd dylanwad pwysicaf, ac mae hefyd wedi cynyddu ers 2020. Yn nodedig, mae 'llety o ansawdd uchel' hefyd wedi cynyddu fel dylanwad.
- Mae'r dylanwadau sy'n ymwneud ag atyniadau ymwelwyr, treftadaeth a hanes i gyd wedi gostwng yn sylweddol ers 2020.

**Ffigur 17. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, 10 Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu gwyliau a chyrchfannau gwyliau byr.
Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604
*Gall gwahaniaethau gyda 2020 gael eu hysgogi'n rhannol gan y nifer cynyddol o opsiynau sydd ar gael ar y cwestiwn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dylanwadau cyrchfan ar gyfer trip dros nos yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae 'gwerth gwych am arian' yn ddylanwad cyrchfan pwysig ar gyfer pob cyfnod bywyd, ond mae dylanwadau eraill yn amrywio. Mae cyfnodau bywyd hŷn yn fwyaf tebygol o flaenoriaethu 'rhwyddineb teithio i'r gyrchfan', hanes a threftadaeth, a bwyd a diod, gyda theuluoedd a chyfnodau bywyd iau yn mynegeio'n uwch ar 'bethau i'w gwneud'.

**Ffigur 18. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, 10 Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu gwyliau a chyrchfannau gwyliau byr. Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Dylanwadau cyrchfan ar gyfer trip dros nos yn y DU

- Mae ystod o ddylanwadau cyrchfan eraill yn bwysig, er bod ‘cyfleoedd i archwilio fy hobïau a diddordebau’ a ‘chyrchfan ecogyfeillgar’ ar waelod y rhestr.

**Ffigur 19. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, Wyth isaf, Yr holl ymatebwyr**




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu gwyliau a chyrchfannau gwyliau byr.
Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Dylanwadau cyrchfan ar gyfer teip dros nos yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae llety â swyn a chymeriad' a 'phrofiad diwylliannol dilys' yn ddau ddylanwad arall ar gyrchfannau sy'n mynegeio'n uwch ymhlith annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr, gyda 'cyn-nythwyr' yn fwyaf tebygol o ffafrio 'diwylliant ac adloniant ffyniannus', 'lleoedd gwych i archwilio oddi ar y llwybr sathredig', 'cyfleoedd i gymdeithasu', 'cyfleoedd i archwilio hobïau' a 'chyrchfan ecogyfeillgar'.

**Ffigur 20. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, Wyth isaf, Yr holl ymatebwyr**




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu gwyliau a chyrchfannau gwyliau byr. Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU*

- O ran profiadau, ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’ yw’r hyn yr hoffai bwriadwyr y DU ei wneud fwyaf (diddordeb tebyg iawn i 2020), ac yna ‘ymweld â ffrindiau a theulu’ ac ‘ymweld ag atyniadau ymwelwyr awyr agored’.
- Yn gyson â chanfyddiadau blaenorol yn yr adroddiad hwn, mae’n ymddangos bod ‘atyniadau’, ‘treftadaeth a diwylliant’ ac ‘archwilio ardaloedd golygfaol mewn car’ yn apelio llai at fwriadwyr y DU nag yn 2020.

**Ffigur 21. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, Deuddeg Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




B3. A pha rai, os o gwbl, o’r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604
*Sylwer: Gall gwahaniaethau gyda 2020 fod yn dymhorol gyda gweithgareddau haf fwy ar flaen y meddwl yn ymchwil diweddarach 2022. Gall gwahaniaethau gael eu llywio hefyd gan y rhestr hirach yn 2022 – ymatebion sy’n datchwyddo’n artiffisial

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf - yn ôl cyfnod bywyd

- Mae rhai gwahaniaethau yn y prif brofiadau a ffefrir yn ôl cyfnod bywyd. Mae Ymddeolwyr yn mynegeio uchaf ar ymweld â ffrindiau neu deulu, gyda chyfnodau bywyd hŷn yn gyffredinol yn mynegeio'n uwch ar gyfer profiadau diwylliant a threftadaeth.
- Nid yw'n syndod mai teuluoedd sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb mewn 'ymweld ag atyniadau teuluol'. Cyn-nythwyr sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb mewn 'profi bywyd nos' a 'mynychu perfformiadau cerddoriaeth, gwyliau neu berfformiadau celfyddydol'.

**Ffigur 22. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, 12 Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




B3. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU ac Iwerddon yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU*

- Mae gweithgareddau fel 'lleoliadau ymweld sy'n cael sylw ar y teledu, mewn ffilm neu lenyddiaeth' a 'dathliadau tymhorol' yn apelio at tua 1 o bob 4 bwriadwyr tripiau yn y DU. Mae 'gwylio digwyddiad chwaraeon' yn apelio at 1 mewn 5. Mae profiad awyr agored penodol fel 'gweithgareddau antur', 'chwaraeon dŵr', 'beicio', 'pysgota' a 'golff' yn debygol o gael eu cyflawni gan leiafrif o fwriadwyr y DU.
- 'Gweithgareddau cadwraeth neu wirfoddoli' yw'r hyn y byddai bwriadwyr tripiau yn y DU yn hoffi ei wneud leiaf ar eu trip yn y DU.

**Ffigur 23. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, Yr un ar ddeg isaf, Yr holl ymatebwyr**




A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

*Sylwer: Gall gwahaniaethau gyda 2020 fod yn dymhorol gyda gweithgareddau haf yn fwy ym mlaen y meddwl yn ymchwil diweddarach 2022. Gall gwahaniaethau gael eu llywio hefyd gan y rhestr hirach yn 2022 – ymatebion sy'n datchwyddo'n artiffisial

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf - yn ôl cyfnod bywyd

- Cyn-nythwyr sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb mewn 'dathliadau tymhorol', 'gwylio/cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon', 'gweithgareddau antur', a 'chwaraeon dŵr'. Mae teuluoedd hefyd yn dangos diddordeb yn y rhan fwyaf o'r profiadau hyn, ac yn mynegeio uchaf ar gyfer 'profiadau byd natur a bywyd gwyllt', 'gweithgareddau creadigol neu artistig', 'beicio neu feicio mynydd' a 'physgota'.

**Ffigur 24. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Y deuddeg Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




B3. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU ac Iwerddon yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Perthynas â chyrchfan ac ymweliadau blaenorol



# Perthynas â chyrchfan

- Yn gyson â 2020, mae bron i hanner (47%) bwriadwyr tripiau yn y DU wedi bod ar wyliau byr neu wyliau yng Nghymru, yr isaf o bob un o wledydd y DU – Lloegr yw'r uchaf ar 88%, ac yna Gogledd Iwerddon (74%) a'r Alban (57%).
- Yn gadarnhaol, nid yw 34% o fwriadwyr tripiau yn y DU erioed wedi bod i Gymru am wyliau/gwyliau byr ond hoffent wneud hynny – sy'n uwch nag unrhyw wlad arall.

**Ffigur 25. Perthynas â phob cyrchfan, Canran, Yr holl ymatebwyr**




C3. A pha un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â'r cyrchfannau hyn?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Teyrngarwch i Gymru yn ôl cyfnod bywyd

- Teuluoedd sy'n adrodd y berthynas gryfaf gyda Chymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr – dros hanner wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr yno, a 42% wedi mynd ar drip yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto.
- Mae ychydig yn llai na hanner ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru a byddai'r rhan fwyaf o'r rhain yn ystyried gwneud hynny eto.
- Cyn-nythwyr sy'n dangos y 'teyrngarwch' gwannaf gyda Chymru, er nad yw dros draean erioed wedi bod ac y byddent yn hoffi gwneud hynny, sy'n awgrymu potensial cryf i droi'n ymweliadau.

**Ffigur 26. Perthynas â Chymru yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr**




C3. A pha un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â'r cyrchfannau hyn?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr = 104

# Ymweliadau blaenorol â phob cyrchfan

- Yn gyson â 'theyrngarwch cyrchfan', Cymru sydd â'r gyfran isaf o 'dripiau diweddar' (ers 2020) gan fwriadwyr tripiau yn y DU – Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd â'r gyfran fwyaf.
- Mae rhai gwahaniaethau nodedig – os nad ydynt yn syndod – i 2020, sy'n debygol o gael eu hysgogi gan gyfyngiadau a phryderon teithio sy'n gysylltiedig â COVID-19. Yn 2020, roedd Lloegr wedi denu ymweliadau gan 45% o fwriadwyr y DU yn y 2 flynedd flaenorol (o gymharu â 36% yn yr arolwg hwn), gryn dipyn o flaen Gogledd Iwerddon (sydd bellach ar yr un lefel ar gyfer ymweliadau diweddar). Mae cyfyngiadau teithio sy'n gysylltiedig â'r pandemig hefyd yn golygu bod 'ymweliadau diweddar' â thir mawr Prydain Fawr yn is nag yn 2020. Er bod y canfyddiadau hyn i'w disgwyl, maent yn awgrymu newid mewn patrymau teithiau a chynefindra llai â Chymru, yr Alban a Lloegr o gymharu â chyn y pandemig.

**Ffigur 27. Ymweliadau blaenorol â phob cyrchfan, Canran, Yr holl ymatebwyr**




C4. Pryd wnaethoch chi ymweld â'r lleoedd hyn ddiwethaf am wyliau neu wyliau byr?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Ymweliadau blaenorol â Chymru fesul cam bywyd

- Yn unol â theyrngarwch cyffredinol i Gymru fel cyrchfan, teuluoedd yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o fod wedi mynd ar daith yng Nghymru ers 2020, gyda 17% wedi gwneud hynny. Mae ymddeolwyr yn dangos lefel uwch o ymweliadau yn gyffredinol, wedi'u hysgogi gan gyfrannau uwch o ymweliadau cyn 2016 ac yn yr un modd mae annibynwyr hŷn yn fwy tebygol o fod wedi ymweld diwethaf cyn 2016.

**Ffigur 28. Ymweliadau blaenorol â Chymru YN ÔL CYFNOD BYWYD, Canran, Yr holl ymatebwyr**




C3. A pha un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â'r cyrchfannau hyn?
C4. Pryd wnaethoch chi ymweld â'r lleoedd hyn ddiwethaf am wyliau neu wyliau byr?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr=104

# Lefel cynefindra â chyrchfannau

- Lloegr sy’n cynhyrchu’r lefelau uchaf o gynefindra fel cyrchfan – 58% yn ei hadnabod yn ‘dda iawn neu’n weddol dda’ – gyda Gogledd Iwerddon yn dilyn yn agos (53%).
- Yn gyson â 2020, cynefindra â Chymru yw’r isaf o bob gwlad, dim ond 22% sy’n ei hadnabod yn dda iawn neu’n weddol dda (o gymharu â 21% yn 2020), gyda thraean (34%) ddim yn ei hadnabod yn dda o gwbl.

**Ffigur 29. Lefel cynefindra â chyrchfannau, Canran, Yr holl ymatebwyr**




C1c. Pa mor dda, os o gwbl, ydych chi'n adnabod pob un o'r rhannau hyn o'r DU?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynefindra cyrchfan â Chymru fesul cam bywyd

- Mae cyn-nythwyr a theuluoedd yn honni eu bod yn adnabod Cymru orau, er bod mwyafrif helaeth o bob cyfnod bywyd yn nodi mai dim ond 'ychydig' neu 'ddim yn dda o gwbl' y maent yn adnabod Cymru.
- Mae lefel gwybodaeth am Gymru gan annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr yn gymharol isel gyda llai nag 1 o bob 5 yn adnabod Cymru yn weddol neu'n dda iawn. Gall hyn adlewyrchu lefelau is o ymweliadau diweddar gan y grwpiau hyn.

**Ffigur 30. Lefel cynefindra â CHYMRU YN ÔL CYFNOD BYWYD, Canran, Yr holl ymatebwyr**




C1c. Pa mor dda, os o gwbl, ydych chi'n adnabod pob un o'r rhannau hyn o'r DU ac Iwerddon?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Lefel cynefindra ag ardaloedd yng Nghymru

- Caerdydd sy'n cynhyrchu’r cynefindra mwyaf o ran ardaloedd yng Nghymru, ac yna Eryri ac Ynys Môn. Mae cynefindra yn gyffredinol yn cyfateb i ymweliadau blaenorol.
- Er bod tua 1 o bob 3 wedi ymweld â Chaerdydd yn flaenorol, mae hyn yn llawer is ar gyfer pob cyrchfan arall yng Nghymru.

**Ffigur 31. Lefel cynefindra ag ardaloedd yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr**




E2. Pa mor dda, os o gwbl, ydych chi'n adnabod yr ardaloedd canlynol o Gymru? E4. Pa rai, os o gwbl, o’r lleoedd hyn yng Nghymru ydych chi erioed wedi ymweld â nhw am wyliau neu wyliau byr?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mannau cyffredin cysylltiedig â Chymru

- Caerdydd hefyd yw'r lle uchaf *heb anogaeth* sy'n gysylltiedig â Chymru – mwy nag wyth gwaith fel y crybwyllwyd o'i gymharu ag Eryri ac Abertawe.



















E1b. A phan fyddwch chi'n meddwl am Gymru fel lle i gymryd gwyliau neu wyliau byr pa leoedd penodol sy'n dod i'ch meddwl? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ystyriaeth o gyrchfannau eraill yn y DU

- O ran cyrchfannau eraill yn y DU, mae'r ystyriaethau gwyliau/gwyliau byr ar eu huchaf ar gyfer Llundain a Chaeredin, gan danlinellu ymhellach hoffter bwriadwyr yn y DU ar gyfer dinasoedd a threfi mawr.
- Ucheldiroedd yr Alban ac ardal y Llynnoedd yw'r rhai a ffefrir fwyaf nesaf, gan dynnu sylw hefyd at ddiddordeb bwriadwyr y DU mewn cefn gwlad a mynyddoedd golygfaol.

**Ffigur 32. Ystyriaeth o gyrchfannau eraill yn y DU, Canran, Yr holl ymatebwyr**




IRE-D7 Yn olaf yn yr adran hon pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi wedi clywed amdanynt yn y DU?
IRE-D8 I ba un fyddech chi o ddifrif yn ystyried mynd am wyliau byr neu wyliau?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cysylltiadau a dewisiadau cyrchfan



# Prif gyrchfan a argymhellir fwyaf

- Yn gyson â 2020, Lloegr yw'r gyrchfan a argymhellir fwyaf ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU ymhlith bwriadwyr tripiau yn y DU, gyda Chymru yn 4ydd – 16 pwynt canran pell y tu ôl i'r Alban a Gogledd Iwerddon yn gydradd 2il.

**Ffigur 33. Cyrchfan rhif un a argymhellir fwyaf, Canran, Yr holl ymatebwyr**




D1a. Hoffem i chi ddychmygu bod ffrind sydd erioed wedi bod yn y lleoedd a restrir isod wedi gofyn am eich cyngor ar ba un i'w ddewis ar gyfer gwyliau neu wyliau byr yn ystod y blynyddoedd nesaf.
Yn seiliedig ar eich dewisiadau eich hun, pa un lle fyddech chi'n ei argymell yn gryf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhesymau dros argymell Cymru

- Heb anogaeth, y prif resymau dros argymell Cymru ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yw ei harddwch naturiol a phobl gyfeillgar. Soniwyd hefyd am y lleoedd i ymweld â nhw, pethau i'w gwneud a hwylustod teithio.

**Rhesymau dros argymell Cymru, Canran y crybwylliadau.**




“Ym mhob un o'r lleoedd yr wyf erioed wedi ymweld â nhw, nid wyf erioed wedi cwrdd â phobl mor neis ac mor barod i helpu hefyd.”

“Mor hardd ym mhob man rydych chi'n edrych ... cestyll, golygfeydd, mae pobl mor neis, mor hyfryd ac mae’n teimlo'n ddiogel iawn.”

“Mae ganddo olygfeydd gwych gyda mynyddoedd a dyffrynnoedd. Mae'n hawdd teithio iddo o Iwerddon. Mae’n werth da am arian ac mae’r bobl yn gyfeillgar.”

“Mae’n lle gwych, mae llawer i’w wneud a’i weld ac mae pobl yn gyfeillgar iawn.”

D1b. Mewn un frawddeg, beth am Gymru sy’n ei gwneud yn gyrchfan a argymhellir i chi? Gallai fod o gymorth i chi ysgrifennu’r rhesymeg y byddech yn ei rhoi i’ch ffrind Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a argymhellodd Cymru n=54

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mathau o gyrchfannau yng Nghymru o gymharu â 2020

- O ran mathau o gyrchfannau, mae Cymru yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â ‘chefn gwlad a phentrefi golygfaol’, ‘antur mynydd’, ‘gwyliau teithiol’ ac ‘arfordir a harbwrs golygfaol’. Er y bu rhywfaint o symud ers 2020, mae cysylltiadau math o gyrchfan yn gymharol gyson.

**Ffigur 34. Mathau o gyrchfannau yng Nghymru o gymharu â 2020, Canran, Yr holl ymatebwyr**




D2. Isod mae’r mathau o gyrchfannau y byddech chi’n ystyried o ddifrif ymweld â nhw am wyliau neu wyliau byr yn y DU ac Iwerddon. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â'r mathau hyn o gyrchfannau?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy’n ystyried pob cyrchfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysylltiadau mathau o gyrchfannau yng Nghymru yn erbyn dewisiadau

- O'i gymharu â phwysigrwydd, mae gan Gymru gysylltiadau cymharol uchel ag arfordiroedd a chefn gwlad golygfaol, ond yn llai felly â 'threfydd hanesyddol a threftadaeth' a 'chyrchfannau glan môr traddodiadol'. Mae Cymru'n sgorio hyd yn oed yn waeth ar 'ddinasoedd a threfi mawr, a 'gwestai cyrchfannau mawr' – dau fath o gyrchfan o bwysigrwydd uchel i fwriadwyr tripiau yn y DU.

**Ffigur 35. Cysylltiad math o gyrchfan yng Nghymru yn erbyn dewis math cyrchfan, Canran**




D2. Isod mae'r mathau o gyrchfannau rydych chi'n ystyried o ddifrif ymweld â nhw am wyliau neu wyliau byr yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â'r mathau hyn o gyrchfannau?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n ystyried pob cyrchfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mathau o gyrchfannau sy'n gysylltiedig â gwledydd cartref

- Yn wahanol i Loegr a'r Alban, nid yw Cymru'n cynhyrchu'r cysylltiad uchaf ar gyfer unrhyw fath o gyrchfan – fodd bynnag, mae'n gwneud y 2 uchaf ar gyfer y mwyafrif, er ei bod cryn dipyn y tu ôl i'r cyrchfan blaenllaw ar gyfer pob un. Mae'r bwlch agosaf ar gyfer 'gwyliau teithiol', lle mae dim ond 7 pwynt y tu ôl i'r Alban.
- Mae gan Gymru'r cysylltiad isaf â dinasoedd a threfi mawr, a chysylltiad cymharol isel â threfi hanesyddol a threftadaeth.

**Tabl 1. Cyrchfannau sydd â'r cysylltiad cryfaf â phob math o gyrchfan, Yr holl ymatebwyr sy'n ystyried pob math o gyrchfan**

| Cefn gwlad a phentrefi golygfaol | Gwylltir a natur | Dinasoedd a threfi mawr | Pentrefi hanesyddol a threftadaeth | Cyrchfannau glan môr traddodiadol | Arfodir a harbwrs golygfaol | Antur mynyddig | Gwyliau teithiol | Pentref/ canolfan gwyliau (e.e. Center Parcs neu gyfwerth) | Gwesty Cyrchfan Mawr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  58% |  68% |  92% |  72% |  63% |  55% |  77% |  59% |  58% |  50% |
|  56% |  43% |  39% |  65% |  38% |  54% |  51% |  51% |  36% |  23% |
|  53% |  34% |  33% |  37% |  28% |  51% |  33% |  51% |  20% |  22% |
|  48% |  30% |  19% |  37% |  16% |  45% |  30% |  50% |  18% |  16% |

D2. Isod mae'r mathau o gyrchfannau y byddech chi'n ystyried o ddifrif ymweld â nhw am wyliau neu wyliau byr yn y DU ac Iwerddon. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â'r mathau hyn o gyrchfannau?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr yn ystyried pob cyrchfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dylanwad Cysylltiadau Cyrchfannau sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020

- O ran cysylltiadau dylanwad cyrchfannau, mae Cymru wedi'i chysylltu'n fwyaf â 'golygfeydd a thirweddau anhygoel', wedi'i dilyn gan 'fannau gwych i archwilio oddi ar y llwybr sathredig' a 'mannau tawel heb dorfeydd o bobl' – oll yn creu cysylltiad o 49% ac uwch.
- Mae 'cysylltiadau dylanwad cyrchfan' yn gymharol gyson â 2020.

**Ffigur 36. Dylanwad Cysylltiadau Cyrchfannau sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020, Canran, Yr holl ymatebwyr**




D3. Isod mae'r dylanwadau cyrchfan a ddangoswyd i chi yn gynharach. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â phob dylanwad?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dylanwad Cysylltiadau Cyrchfannau sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020

- Mae gan Gymru gysylltiadau gwannach fel rhywle sydd â 'lleoedd sy'n enwog am eu bwyd a'u diod'. Efallai'n arwyddocaol o ystyried ei bwysigrwydd, mae gan fwriadwyr tripiau yn y DU hefyd gysylltiad isel â Chymru am fod yn rhywle sy'n cynnig 'gwerth gwych am arian'.

**Ffigur 37. Dylanwad Cysylltiadau Cyrchfannau sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020, Canran, Yr holl ymatebwyr**




D3. Isod mae'r dylanwadau cyrchfan a ddangoswyd i chi yn gynharach. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â phob dylanwad?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dylanwad Cysylltiadau Cyrchfannau sy’n gysylltiedig â Chymru yn erbyn dewisiadau

- Mae Cymru’n sgorio’n gymharol uchel ar gyfer nifer o ddylanwadau cyrchfan ‘dewis uchel’ – yn enwedig ‘golygfeydd a thirweddau anhygoel’ a ‘chyrchfan sy’n gyfoethog mewn hanes a threftadaeth’. Fodd bynnag, mae nifer o ddylanwadau pwysig yn sgorio’n isel – yn arbennig, ‘mae’n hawdd teithio iddo a mynd o gwmpas’, ‘llety o ansawdd uchel’, ‘gwerth gwych am arian’, ‘diwylliant ac adloniant sy’n ffynnu’ a ‘lleoedd sy’n enwog am eu bwyd a diod'.

**Ffigur 38. Dylanwad Cysylltiad Cyrchfannau Cymru yn erbyn dylanwad dewis cyrchfan, Canran**




D3. Isod mae'r dylanwadau cyrchfan a ddangoswyd i chi yn gynharach. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â phob dylanwad?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n= 604

# Cysylltiadau cyrchfan – dylanwadau tripiau

- O'i gymharu â chyrchfannau eraill, mae gan Gymru'r cysylltiadau gwannaf ar gyfer y mwyafrif o ddylanwadau tripiau – dim ond 'pobl sy'n groesawgar iawn' a 'chyrchfan ecogyfeillgar' yn y 3 uchaf.
- Mae'r Alban wedi'i chysylltu'n gryf â chroesawu pobl, profiad diwylliannol dilys a bod yn gyfoethog o ran hanes a threftadaeth. Mae gan Loegr gysylltiad cryfaf â thirnodau ac atyniadau enwog, sîn adloniant ffyniannus a rhywle i ymweld â hi bob amser o'r flwyddyn.

**Tabl 2. Cyrchfannau sydd â'r cysylltiad cryfaf â dylanwad pob trip, Yr holl ymatebwyr**

| Pobl sy'n groesawgar iawn | Profiad diwylliannol dilys | Cyrchfan amgylchedd gyfeillgar | Cyrchfan sy'n gyfoethog mewn hanes a threftadaeth | Tirnodau ac atyniadau ymwelwyr enwog | Diwylliant ffyniannus a lleoliad yn cynnwys adloniant | Rhywle y gallwch ymweld ag ef unrhyw adeg o'r flwyddyn | Llety gyda swyn a chymeriad | Gwerth da am arian | Llety o ansawdd da |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [Yr Alban] 56% | [Yr Alban] 63% | [Yr Alban] 41% | [Yr Alban] 70% | [Lloegr] 74% | [Lloegr] 61% | [Lloegr] 69% | [Yr Alban] 57% | [Gogledd Iwerddon] 38% | [Lloegr] 68% |
| [Gogledd Iwerddon] 47% | [Gogledd Iwerddon] 53% | [Gogledd Iwerddon] 36% | [Lloegr] 63% | [Yr Alban] 58% | [Yr Alban] 50% | [Gogledd Iwerddon] 59% | [Lloegr] 51% | [Yr Alban] 30% | [Gogledd Iwerddon] 48% |
| [Cymru] 42% | [Lloegr] 47% | [Cymru] 33% | [Gogledd Iwerddon] 55% | [Gogledd Iwerddon] 55% | [Gogledd Iwerddon] 46% | [Yr Alban] 46% | [Gogledd Iwerddon] 45% | [Lloegr] 30% | [Yr Alban] 47% |
| [Lloegr] 36% | [Cymru] 44% | [Lloegr] 29% | [Cymru] 47% | [Cymru] 37% | [Cymru] 28% | [Cymru] 40% | [Cymru] 42% | [Cymru] 24% | [Cymru] 34% |

D3. Isod mae'r dylanwadau cyrchfan a ddangoswyd i chi yn gynharach. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â phob dylanwad?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysylltiadau cyrchfannau – dylanwadau tripiau

- Yn gadarnhaol, mae Cymru yn ail am 'leoedd gwych i'w harchwilio oddi ar y llwybr sathredig' ac mae ganddi 'leoedd tawel heb dorfeydd o bobl' – dim ond ychydig y tu ôl i'r Alban y mae'r olaf.
- Mae Cymru'n llai cysylltiedig fel lle sy'n hawdd teithio iddo a symud o gwmpas na rhannau eraill o'r DU.

**Tabl 3. Cyrchfannau sydd â'r cysylltiad cryfaf â dylanwad pob trip. Yr holl ymatebwyr**

| Llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud | Lleoedd gwych i archwilio ac oddi ar y llwybr sathredig | Golygfeydd a thirweddau anhygoel | Lleoedd sy'n enwog am eu bwyd a'u diod | Cyfleoedd i archwilio fy hobïau a diddordebau | Cyfleoedd i gwrdd a chymdeithasu â phobl eraill | Mannau tawel heb dorfeydd o bobl | Hawdd teithio iddo a symud o gwmpas |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [England] 74% | [Scotland] 61% | [Scotland] 73% | [England] 49% | [England] 55% | [England] 59% | [Scotland] 52% | [England] 62% |
| [Scotland] 50% | [Wales] 49% | [Northern Ireland] 59% | [Scotland] 42% | [Scotland] 42% | [Scotland] 54% | [Wales] 49% | [Northern Ireland] 56% |
| [Northern Ireland] 49% | [Northern Ireland] 48% | [Wales] 54% | [Northern Ireland] 37% | [Northern Ireland] 37% | [Northern Ireland] 49% | [Northern Ireland] 41% | [Scotland] 40% |
| [Wales] 37% | [England] 37% | [England] 42% | [Wales] 24% | [Wales] 33% | [Wales] 42% | [England] 22% | [Wales] 33% |

D3. Isod mae'r dylanwadau cyrchfan a ddangoswyd i chi yn gynharach. Pa rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn ydych chi'n eu cysylltu fwyaf â phob dylanwad?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

# Profiadau sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020*

- Mewn perthynas â phrofiadau, mae gan Gymru'r cysylltiadau uchaf â 'cherdded, heicio neu grwydro', 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car' a 'dysgu am hanes a diwylliant lleol'.
- Mae cysylltiadau profiadau yn gymharol debyg i 2020, er bod pob un wedi gostwng ychydig, 'ymweld â safleoedd treftadaeth neu atyniadau diwylliannol' yn gostwng fwyaf (gostyngiad o 12 pwynt canran), sy'n cyfateb i'r ffaith bod y profiad hwn yn llai pwysig i'r bwriadwyr tripiau yn y DU yn gyffredinol, a gostyngiadau tebyg ar gyfer cyrchfannau eraill.

**Ffigur 39. Profiad sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020, Canran, y 12 Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




D4. A pha rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn sydd fwyaf addas ar gyfer y profiadau gwyliau hyn yn eich barn chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604
*Gall gwahaniaethau gyda 2020 gael eu hysgogi'n rhannol gan y nifer cynyddol o opsiynau sydd ar gael ar y cwestiwn

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Profiadau sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020

- Mae gan Gymru'r cysylltiadau isaf â 'siopa arbenigol', 'ymweld â ffrindiau a theulu' a 'dathliadau tymhorol'.

**Ffigur 40. Profiadau sy'n gysylltiedig â Chymru o gymharu â 2020, Canran, yn yr 11 Isaf, Yr holl ymatebwyr**




D4. A pha rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn sydd fwyaf addas ar gyfer y profiadau gwyliau hyn yn eich barn chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cysylltiadau Profiad Cyrchfannau yng Nghymru yn erbyn dewisiadau

- Yn gyffredinol, mae gan Gymru gysylltiadau uchel â nifer o brofiadau cyrchfan sy’n bwysig iawn, yn enwedig ar gyfer ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’, ‘ymweld ag atyniadau awyr agored’, ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ‘archwilio mannau golygfaol mewn car’ a 'dysgu am hanes a diwylliant lleol'.
- ‘Mae gan Gymru gysylltiadau is ag ystod o brofiadau sydd o ddiddordeb lefel ganolig ar wyliau gan gynnwys ‘siopa arbenigol’, ‘mynychu cerddoriaeth fyw/gwyliau’, ‘profi bywyd nos’ ‘profiadau iechyd a lles’ ac ymweld â ‘lleoliadau sy’n cael sylw ar y teledu, mewn ffilm neu lenyddiaeth'.

**Ffigur 41. Cysylltiadau profiad cyrchfannau yng Nghymru yn erbyn dewisiadau, Canran.**




D4. A pha rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn sydd fwyaf addas ar gyfer y profiadau gwyliau hyn yn eich barn chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n= 604
Ymweld ag atyniadau teuluol teuluoedd yn unig n=415

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysylltiadau cyrchfannau – profiadau trip

- O fewn cyd-destun cystadleuol, mae gan Gymru'r cysylltiadau isaf gyda nifer fawr o brofiadau tripiau – 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car', un o'r ychydig sy'n gwneud y 3 uchaf.
- Yr Alban yw'r gyrchfan sydd â'r cysylltiad cryfaf yn y DU ar gyfer 'archwilio mewn car', 'dysgu am hanes a diwylliant lleol' a 'rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol'.
- Lloegr yw'r gyrchfan sydd â'r cysylltiad cryfaf ag atyniadau a lleoliadau sy'n cael sylw ar y teledu, mewn ffilm neu lenyddiaeth, mynychu digwyddiadau byw a siopa arbenigol.

**Tabl 4. Cyrchfannau sydd â'r cysylltiad cryfaf â phob profiad trip, Yr holl ymatebwyr**

| Ymweld â safleoedd treftadaeth neu atyniadau diwylliannol | Ymweld ag atyniadau ymwelwyr awyr agored | Ymweld ag atyniadau teuluol | Dysgu am hanes a diwylliant lleol | Ymweld â lleoliadau sy'n cael sylw ar y teledu, mewn ffilm neu lenyddiaeth | Archwilio ardaloedd golygfaol mewn car | Gweithgareddau cadwraeth neu wirfoddoli | Gweithgareddau creadigol neu artistig | Profiadau iechyd neu lles | Rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol | Mynychu perfformiadau cerddoriaeth fyw, gwyliau neu berfformiadau celfyddydol | Siopa arbenigol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 67% | 65% | 63% | 62% | 57% | 63% | 35% | 49% | 51% | 62% | 65% | 62% |
| 53% | 52% | 37% | 59% | 51% | 58% | 31% | 43% | 38% | 56% | 35% | 28% |
| 49% | 43% | 33% | 57% | 42% | 50% | 28% | 41% | 35% | 50% | 35% | 26% |
| 35% | 43% | 31% | 46% | 25% | 48% | 28% | 37% | 29% | 43% | 23% | 16% |

D4. A pha rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn sydd fwyaf addas ar gyfer y profiadau gwyliau hyn yn eich barn chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysylltiadau Cyrchfannau – profiadau tripiau

- Yn fwy cadarnhaol, mae gan Gymru ‘ddau brif gysylltiad’ â gweithgareddau antur meddal ac awyr agored fel ‘profiadau natur a bywyd gwyllt’, ‘cerdded heicio neu grwydro’ a ‘beicio neu feicio mynydd’ – pob un wedi’i leoli y tu ôl i’r Alban.
- Yn ddiddorol, mae gweithgareddau antur ehangach yn llai cysylltiedig â Chymru na rhannau eraill o’r DU, er bod y bwlch yn gymharol fach.

**Tabl 5. Cyrchfannau sydd â'r cysylltiad cryfaf â phob profiad trip, Yr holl ymatebwyr**

| Siopa arbenigol | Profiadau natur a bywyd gwyllt | Cerdded, Heicio neu Grwydro | Gweithgareddau Antur | Beicio neu Feicio Mynydd | Chwaraeon dŵr | Pysgota - genweirio môr, pysgota bras, pysgota gêm | Dathliadau tymhorol | Golff | Profi’r bywyd nos | Gwylio neu gymeryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon | Ymweld â ffrindiau a theulu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 62% | 62% | 67% | 52% | 56% | 40% | 52% | 50% | 55% | 69% | 61% | 56% |
| 28% | 46% | 54% | 46% | 44% | 36% | 43% | 47% | 40% | 40% | 40% | 28% |
| 26% | 43% | 51% | 42% | 42% | 34% | 34% | 32% | 38% | 40% | 31% | 24% |
| 16% | 37% | 40% | 42% | 30% | 31% | 32% | 21% | 23% | 24% | 30% | 18% |

D4. A pha rai, os o gwbl, o'r lleoedd hyn sydd fwyaf addas ar gyfer y profiadau gwyliau hyn yn eich barn chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysylltiadau cyrchfannau - teimladau o gymharu â 2020

- O ran ‘teimladau’, mae Cymru yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig ag ymlacio, darganfod ac antur – yn lleiaf tebygol o fod yn gysylltiedig â rhamant, cyffro a syndod.
- Mae ‘cysylltiadau teimladau’ â Chymru yn gymharol debyg i 2020.

**Ffigur 42. Cysylltiadau teimladau cyrchfannau â Chymru o gymharu â 2020, Canran, Yr holl ymatebwyr**




D5. Mae'r rhestr isod yn amlinellu rhai teimladau y mae pobl eraill wedi'u cael ar wyliau a gwyliau byr. O'r hyn rydych chi'n ei wybod neu'n ei ddychmygu, pa un o'r lleoedd hyn sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu'r teimladau hyn ar wyliau neu wyliau byr?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysylltiadau cyrchfannau – teimladau tripiau

- Mewn cyd-destun cystadleuol, dim ond un 'dau brif gysylltiad teimladau' y mae Cymru'n ei chynhyrchu ar gyfer ymlacio, gyda thri chysylltiad uchaf ar gyfer 'antur'.
- Yr Alban sy'n cynhyrchu'r ymdeimlad cryfaf o emosiwn (yn y safle cyntaf am 8 allan o 11 teimlad), er mai hi yw'r gyrchfan â'r 3ydd uchaf o ran ymweliadau blaenorol a chynefindra.

**Tabl 6. Cyrchfannau a gysylltir gryfaf â phob teimlad trip, Yr holl ymatebwyr**

| Cyffo | Ymlacio | Ysbrydoliaeth | Syndod | Antur | Moethusrwydd | Darganfod | Lles | Hwyl | Rhamant | Chwilfrydedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [England] 57% | [Scotland] 54% | [Scotland] 49% | [Scotland] 41% | [Scotland] 59% | [England] 65% | [Scotland] 62% | [Scotland] 43% | [England] 62% | [Scotland] 47% | [Scotland] 51% |
| [Scotland] 43% | [Wales] 46% | [England] 39% | [England] 38% | [Northern Ireland] 45% | [Scotland] 31% | [Northern Ireland] 47% | [England] 37% | [Scotland] 51% | [England] 34% | [England] 38% |
| [Northern Ireland] 35% | [Northern Ireland] 44% | [Northern Ireland] 38% | [Northern Ireland] 36% | [Wales] 39% | [Northern Ireland] 24% | [England] 44% | [Northern Ireland] 33% | [Northern Ireland] 46% | [Northern Ireland] 28% | [Northern Ireland] 37% |
| [Wales] 27% | [England] 38% | [Wales] 33% | [Wales] 28% | [England] 37% | [Wales] 19% | [Wales] 44% | [Wales] 32% | [Wales] 36% | [Wales] 23% | [Wales] 30% |

D5. Mae'r rhestr isod yn amlinellu rhai teimladau y mae pobl eraill wedi'u cael ar wyliau a gwyliau byr. O'r hyn rydych chi'n ei wybod neu'n ei ddychmygu, pa un o'r lleoedd hyn sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu'r teimladau hyn ar wyliau neu wyliau byr?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC

# Canfyddiadau brand ehangach o Gymru

- Mae gan Gymru gysylltiadau cymharol gryf â nifer o feysydd, yn enwedig fel rhywle sydd ‘â diwylliant unigryw a dilys’, ‘sy’n groesawgar, yn gyfeillgar ac yn gwerthfawrogi pawb’ ac ‘sy’n gofalu am yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig’.

**Ffigur 43. Graddfeydd Brand ar gyfer Cymru, Canran, Saith Uchaf**

| NET: Sgorau sy’n Cytuno | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2020 | 77% | 74% | 69% | 73% | NA | 76% | 69% |
| 2022 | 74% | 70% | 70% | 68% | 67% | 66% | 66% |




F5. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau hyn am Gymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

# Canfyddiadau brand ehangach o Gymru

- Mae cysylltiadau â Chymru yn is gyda ‘yn cynnig ystod ragorol o ddigwyddiadau a gwyliau’, er bod hyn yn cael ei yrru gan gyfran gymharol uchel sydd ‘ddim yn gwybod’/‘ddim yn cytuno nac yn anghytuno’ yn hytrach na chyfran uchel yn ‘anghytuno’.

**Ffigur 44. Graddfeydd Brand ar gyfer Cymru, Canran, Wyth Isaf**

| NET: Sgorau sy’n cytuno | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2020 | 67% | 68% | 65% | 62% | 55% | 55% | 55% | 48% |
| 2022 | 66% | 64% | 61% | 57% | 56% | 54% | 52% | 48% |




F5. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau hyn am Gymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymweliadau â Chymru yn y dyfodol



# Tripiau a gymerwyd yng Nghymru yn 2022 a thripiau yng Nghymru yn y dyfodol

- Mae 1 o bob 4 o fwriadwyr y DU yn agored iawn i ymweld â Chymru am wyliau/gwyliau byr yn y pum mlynedd nesaf gyda 55% arall yn dangos cryn ddiddordeb. Mae 1 o bob 11 (9%) wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru hyd yn hyn yn 2022 (rhwng mis Ionawr a mis Mehefin), gydag 11% yn nodi eu bod naill ai eisoes wedi archebu neu y byddant yn bendant yn mynd ar drip yng Nghymru yn y 12 mis nesaf. Mae 1 o bob 5 (21%) yn nodi y byddant yn 'debygol' o wneud hynny.

**Ffigur 45. Yn agored i unrhyw wyliau/gwyliau byr yng Nghymru yn y 5 mlynedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 46. P'un a gymerwyd trip yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2022, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 47. Tripiau yng Nghymru a fwriedir yn y 12 mis nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr**




F1. A ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf?
F2b. Ac a ydych chi eisoes wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru eleni?
F3.Pa mor agored fyddech chi i gymryd gwyliau/gwyliau byr yng Nghymru yn y 4-5 mlynedd nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Tripiau a fwriedir i Gymru yn y 12 mis nesaf – fesul cyfnod bywyd

- Cyn-nythwyr a theuluoedd yw'r cyfnodau bywyd sydd fwyaf tebygol o fod 'yn bendant yn bwriadu' cymryd gwyliau/gwyliau byr yng Nghymru yn y 12 mis nesaf – tua 1 o bob 6 yn bwriadu gwneud hynny.
- Dim ond 1% o ymddeolwyr a 6% o 'annibynwyr hŷn' sy'n cynllunio gwyliau byr neu wyliau i Gymru yn ystod y 12 mis nesaf, gostyngiad nad oedd yn amlwg cyn y pandemig yn gynnar yn 2020.

**Ffigur 48. Eisoes wedi archebu/yn benant yn ymweld â Chymru yn ystod y 12 mis nesaf yn ôl cyfnod bywyd, Yr holl ymatebwyr**




F1. A ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=111; Teuluoedd n=204; Annibynwyr Hŷn n=185; Ymddeolwyr n=104

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Tripiau a fwriedir i Gymru yn y 12 mis nesaf – fesul segment a rhanbarth

- Trigolion Dulyn sydd fwyaf tebygol o fod yn cynllunio trip i Gymru yn ystod y 12 mis nesaf, a Cheiswyr Antur a Dilynwyr Diwylliannol yw'r prif rannau. Mae’r nifer cymharol isel o Archwilwyr a Dilynwyr golygfeydd sy’n cynllunio trip i Gymru yn unol â chyfnod bywyd (y segmentau hyn yw’r hynaf) a’r bwriadau cyffredinol i ymweld â’r DU eleni.

**Ffigur 49. Eisoes wedi archebu/yn bendant yn ymweld â Chymru yn ystod y 12 mis nesaf yn ôl cyfnod bywyd, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 50. Wedi archebu eisoes/yn bendant yn ymweld â Chymru yn ystod y 12 mis nesaf yn ôl segment, Yr holl ymatebwyr**




F1. A ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf?
Sylfaen: Dulyn n=168; Connaught-Ulster n=105; Leinster n=163; Munster n=168; Anturiaethwyr n=136; Ceiswyr antur n=155; Archwilwyr n=143; Dilynwyr golygfeydd n=85; Dilynwyr Diwylliannol n=85

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Misoedd y cymerir neu y bwriedir cymeryd trip yng Nghymru

- Mae bwriadwyr tripiau i Gymru yn fwyaf tebygol o gynllunio eu trip i Gymru ym mis Medi.
- Pan ofynnwyd iddynt beth yw eu hoff fisoedd ar gyfer trip dros nos yng Nghymru yn fwy cyffredinol, mae’r ffenestr yn ymestyn rhywfaint, ‘mis Gorffennaf i fis Awst’ yw’r cyfnod delfrydol, ac yna ‘mis Mai i fis Mehefin’ a ‘ mis Medi i fis Hydref’.
- Mae'r ddau siart yn dangos nad yw mis Tachwedd i fis Chwefror yn ddeniadol iawn ar gyfer trip i Gymru.

**Ffigur 51. Misoedd y cymerir neu y bwriedir cymeryd trip yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 52. Y misoedd a ffefrir ar gyfer trip dros nos yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr sy’n agored i drip dros nos yng Nghymru**




F2a. Pryd ydych chi'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn y blynyddoedd nesaf?
F2c. Ym mha rai o'r misoedd hyn wnaethoch chi gymryd y trip dros nos hon i Gymru eleni?
F4. Pa rai, os o gwbl, o’r cyfnodau hyn o’r flwyddyn fyddai’r amseroedd a ffefrir gennych ar gyfer cymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604; Yr holl ymatebwyr sy’n agored i fynd ar drip yng Nghymru n=481

# Rheswm dros beidio ag ymweld â Chymru yn y 12 mis nesaf

- Ffactorau ariannol yw'r prif reswm pam nad yw bwriadwyr tripiau yn y DU yn ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr – 'cost tanwydd' a 'chostau cynyddol gwyliau/hamdden', y ddau brif reswm, gyda 'chyllid personol' yn 4ydd. Gyda'i gilydd, mae 51% o'r rhai nad ydynt yn fwriadwyr i Gymru yn dyfynnu rhyw fath o reswm ariannol fel rhwystr allweddol.
- Mae COVID-19 hefyd yn parhau i fod yn rhwystr, 18% yn nerfus am deithio oherwydd COVID-19 a 15% yn poeni am ei ddal neu ei ledaenu - cyfanswm o 28% ar lefel net.
- Dywed tua 1 o bob 4 nad ydynt erioed wedi meddwl am Gymru fel cyrchfan gwyliau o'r blaen fel rheswm dros beidio ag ymweld.

**Ffigur 53. Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn y 12 mis nesaf, Canran, Deuddeg Uchaf**




F4d. Beth yw'r rhesymau pam nad ydych yn bwriadu ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn ystod y 12 mis nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr nad ydynt yn cynllunio trip i Gymru yn 2022 n=414

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheswm dros beidio ag ymweld â Chymru yn y 12 mis nesaf

- Mae yna nifer o resymau eraill hefyd pam nad yw pobl yn bwriadu ymweld â Chymru – 'amodau tywydd' wedi'u dyfynnu gan 12% ac 'mae'n anodd teithio o gwmpas' gan 11%.

**Ffigur 54. Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn y 11 mis nesaf, Canran, Deuddeg Isaf**




F4d. Beth yw'r rhesymau pam nad ydych yn bwriadu ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn ystod y 12 mis nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr nad ydynt yn cynllunio trip i Gymru yn 2022 n=414

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymweld â Chymru y tu allan i'r tymor



# Yn agored i gymryd gwyliau byr neu wyliau y tu allan i'r tymor yng Nghymru

- Mae bron i hanner (45%) bwriadwyr tripiau yn y DU yn dweud eu bod yn 'agored iawn' i'r syniad o wyliau/gwyliau byr yng Nghymru y tu allan i dymor yr haf (rhwng mis Medi a mis Ebrill).
- Mae'r diddordeb ar ei gryfaf ym misoedd y Gwanwyn a'r Hydref, ac ar ei isaf ym mis Ionawr a Chwefror – er bod hyn yn atgynhyrchu'n fras y patrymau teithiau hysbys.

**Ffigur 55. Yn agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr**




**Ffigur 56. Misoedd y byddid yn agored i wyliau byr neu wyliau y tu allan i'r tymor yng Nghymru yn y dyfodol, Canran, Yr holl ymatebwyr**




F5ii. Pa mor agored fyddech chi i gymryd gwyliau/gwyliau byr yng Nghymru y tu allan i brif dymor yr haf – hynny yw rhwng mis Medi a mis Ebrill?
F7. Pa fisoedd fyddech chi'n agored i gymryd gwyliau byr y tu allan i'r tymor neu wyliau yng Nghymru yn y dyfodol? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604 Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip yng Nghymru y tu allan i'r tymor n=409

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Yn agored i drip yng Nghymru y tu allan i'r tymor - fesul cyfnod bywyd

- Teuluoedd sy’n dangos y diddordeb mwyaf mewn ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr y tu allan i'r tymor, yn unol â bwriadau cyffredinol y trip. Mae ‘cyn-nythwyr’ yn dangos yr ail lefel uchaf o fod yn agored i ymweld â Chymru y tu allan i dymor yr haf, tra bod y rhai o oedran ymddeol yn dangos y lefel isaf o ddiddordeb.

**Ffigur 57. Yn agored i drip yng Nghymru y tu allan i'r tymor yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr**




F5ii. Pa mor agored fyddech chi i gymryd gwyliau/gwyliau byr yng Nghymru y tu allan i brif dymor yr haf – hynny yw rhwng mis Medi a mis Ebrill? Sylfaen: Cyn-nythwyr n=91; Teuluoedd n=176; Annibynwyr Hŷn n=145; Ymddeolwyr n=68

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Rhesymau dros apêl trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru

- Y tri phrif reswm dros apêl trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru yw 'mae llety yn rhatach' (66%), 'mae'n well gen i heddwch a thawelwch' (53%) a 'llai o bobl mewn cyrchfannau' (51%).
- Mae mwynhau dathliadau tymhorol a phersonol, gwyliau a digwyddiadau, a bwyd a diod tymhorol ar hyn o bryd yn llai atyniadol na mwynhau'r amgylchedd awyr agored mwy heddychlon, o bosibl yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw'r rhain mor gysylltiedig â Chymru.
- Mae tua 4 o bob 10 yn datgan mai apêl trip y tu allan i dymor i Gymru yw ei bod yn amser gwell ar gyfer siopa a gwyliau dinas.

**Ffigur 58. Rhesymau dros apêl trip yng Nghymru y tu allan i'r tymor, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip yng Nghymru y tu allan i'r tymor**




F8. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol sy'n esbonio apêl gwyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yng Nghymru i chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhesymau dros apêl trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae'r rhesymau dros apêl trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru yn gyffredinol gyson ar draws cyfnodau bywyd.
- Fodd bynnag, mae yna ychydig o wahaniaethau nodedig – gyda chyfnodau bywyd hŷn yn nodi bod ‘llai o bobl’ o’r pwys mwyaf, a’r ymddeolwyr hefyd yn gweld ‘tywydd oerach’ a ‘ffyrdd yn dawelach’ yn ddeniadol.
- Mae mynegai ‘cyn-nythwyr’ yn uwch ar ‘llety yn rhatach’ o’i gymharu â rhesymau eraill a chyfnodau bywyd eraill, er mai dyma’r rheswm pwysicaf i bawb heblaw’r ymddeolwyr.

**Ffigur 59. Rhesymau dros apêl trip yng Nghymru y tu allan i'r tymor yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr sy’n agored i drip y tu allan i’r tymor yng Nghymru**




F8. Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol sy’n esbonio apêl gwyliau/gwyliau byr y tu allan i’r tymor yng Nghymru i chi?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sydd â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru Cyn-nythwyr n=76; Teuluoedd n=159; Annibynwyr Hŷn n=126; Ymddeolwyr n=48

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru y tu allan i'r tymor

- Mae’r rhai nad ydynt yn agored i ymweld â Chymru y tu allan i’r tymor yn fwyaf tebygol o gael eu digalonni gan y tywydd yr adeg honno o’r flwyddyn – bron i hanner yn nodi hyn, ac yna ‘dyddiau a nosweithiau byrrach’. Mae traean o deuluoedd yn nodi ‘llai o wyliau ysgol’ fel rhwystr.

**Ffigur 60. Rhesymau dros beidio â bod eisiau ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr y tu allan i'r tymor, Canran, Yr holl rai nad ydynt yn agored i drip y tu allan i’r tymor**




F6. Pa resymau ydych chi'n meddwl byddai'n eich atal rhag cymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru y tu allan i brif dymor yr haf - hynny yw rhwng mis Medi a mis Ebrill?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Mathau o gyrchfannau yr ystyrir o ddifrif ar gyfer trip y tu allan i'r tymor

- Gan nodi gwyriad oddi wrth ddewis cyffredinol y DU (pan mai ‘dinasoedd a threfi mawr’ yw’r rhai a ffefrir fwyaf o bell ffordd), ‘cefn gwlad a phentrefi golygfaol’ yw’r math o gyrchfan y byddai gan fwriadwyr tripiau yn y DU *fwyaf* o ddiddordeb ynddynt o ran ymweld â Chymru y tu allan i’r tymor (o flaen dewis cyffredinol y DU) ac yna 'dinasoedd a threfi mawr' a 'threfi hanesyddol a threftadaeth'*.
- Fodd bynnag, o ystyried cysylltiadau isel Cymru â dinasoedd a threfi mawr, mae mathau eraill o gyrchfan yn debygol o fod yn fwy amlwg wrth archebu taith y tu allan i’r tymor yng Nghymru.

**Ffigur 61. Y math o gyrchfan sydd â'r diddordeb mwyaf mewn ymweld â hiar wyliau/gwyliau byr y tu allan i’r tymor, Canran, Yr holl ymatebwyr sy’n agored i drip yng Nghymru y tu allan i’r tymor**




F9.Pa un, os o gwbl, o'r canlynol sy'n disgrifio orau y mathau o gyrchfannau y byddai gennych fwyaf o ddiddordeb mewn ymweld â nhw yng Nghymru y tu allan i'r tymor?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409
*Sylwch mae dewisiadau cyffredinol ar gyfer yr holl fwriadwyr tripiau yn y DU, tra bod y dewis y tu allan i’r tymor yn unig o blith y rheini sy’n agored i drip y tu allan i’r tymor yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mathau o gyrchfannau yr ystyrir o ddifrif ar gyfer trip y tu allan i'r tymor - yn ôl cyfnod bywyd

- Yn gymharol debyg i batrymau ehangach y DU, mae nifer o amrywiadau yn y math o gyrchfan sy'n cael ei ffafrio yn ôl cyfnod bywyd – cyfnodau bywyd hŷn yn fwy tebygol o ddangos ffafriaeth at 'drefi hanesyddol a threftadaeth' ac 'arfordir a harbwrs golygfaol'.
- Mae teuluoedd yn llai tebygol o fod â diddordeb mewn ymweld â 'dinasoedd a threfi mawr'.

**Ffigur 62. Y math o gyrchfan sydd â'r diddordeb mwyaf o ran ymweld â hi ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip yng Nghymru y tu allan i'r tymor**




F9.Pa un, os o gwbl, o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r mathau o gyrchfannau y byddai gennych fwyaf o ddiddordeb mewn ymweld â nhw yng Nghymru y tu allan i'r tymor?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sydd â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru Cyn-nythwyr n=76; Teuluoedd n=159; Annibynwyr Hŷn n=126; Ymddeolwyr n=48

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar drip y tu allan i'r tymor

- Mae'r profiadau sy'n cael eu hystyried yn fwyaf diddorol ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yng Nghymru yn gymharol gyson â 'dewisiadau profiad cyffredinol' ar *wyliau/gwyliau byr yn y DU* – 'rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol', 'ymweld â safleoedd treftadaeth neu atyniadau diwylliannol ', 'dysgu am hanes a diwylliant lleol', 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car' ac 'ymweld ag atyniadau awyr agored' a ffefrir mwyaf.*

**Ffigur 63. Profiadau sydd â'r diddordeb mwyaf ynddynt ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor, Canran, y Deg Uchaf, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip yng Nghymru y tu allan i'r tymor**




F10.Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn y byddai gennych fwyaf o ddiddordeb eu gwneud ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409
*Sylwch mae'r hyn a ffefrir yn gyffredinol ar gyfer bwriadwyr tripiau yn y DU, tra bod y dewis y tu allan i'r tymor yn unig ar gyfer y rheiny sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar drip y tu allan i'r tymor - yn ôl cyfnod bywyd

- Yn yr un modd â dewisiadau profiad cyffredinol, mae cyfnodau bywyd hŷn yn tueddu i fynegeio'n uwch ar apêl 'rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol', 'ymweld â safleoedd treftadaeth', 'dysgu am hanes a diwylliant lleol' ac 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car' ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru.
- Nid yw'n syndod mai teuluoedd sydd â'r diddordeb mwyaf mewn 'ymweld ag atyniadau teuluol'.
- Mae gan 'gyn-nythwyr' lefel uwch o ddiddordeb mewn profi'r bywyd nos' a mynychu digwyddiadau byw.

**Ffigur 64. Profiadau sydd â'r diddordeb mwyaf ynddynt ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yn ôl cyfnod bywyd, Canran, y Deg Uchaf, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




F10.Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn y byddai gennych fwyaf o ddiddordeb eu gwneud ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sydd â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru Cyn-nythwyr n=76; Teuluoedd n=159; Annibynwyr Hŷn n=126; Ymddeolwyr n=48

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar drip y tu allan i'r tymor

- Mae ystod o brofiadau eraill hefyd yn apelio ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru, gan gynnwys 'siopa arbenigol', 'profiadau natur a bywyd gwyllt', 'ymweld â lleoliadau sy'n cael sylw ar y teledu, mewn ffilm neu lenyddiaeth', a 'phrofiadau iechyd neu lles'.
- Mae gan weithgareddau penodol fel beicio, pysgota, chwaraeon dŵr a golff lefel is o ddiddordeb ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru.

**Ffigur 65. Profiadau sydd â'r diddordeb mwyaf ynddynt ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor**
**Deuddeg isaf, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




F10.Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn y byddai gennych fwyaf o ddiddordeb eu gwneud ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409

# Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar drip y tu allan i'r tymor - yn ôl cyfnod bywyd

- Yn yr un modd â dewisiadau cyffredinol, mae cyfnodau bywyd iau yn dangos mwy o ddiddordeb mewn ‘gweithgareddau iechyd neu lles’ a ‘gweithgareddau antur’.

**Ffigur 66. Profiadau sydd â'r diddordeb mwyaf ynddynt ar wyliau/wyliau byr y tu allan i’r tymor yng Nghymru yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Deg Uchaf, Yr holl ymatebwyr sy’n agored i drip y tu allan i’r tymor yng Nghymru**




F10.Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn y byddai gennych fwyaf o ddiddordeb eu gwneud ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sydd â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru Cyn-nythwyr n=76; Teuluoedd n=159; Annibynwyr Hŷn n=126; Ymddeolwyr n=48

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Diddordeb mewn mynychu gwyliau ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru

- Mae lefel uchel o ddiddordeb mewn mynychu gwyliau ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru – 'gwyliau bwyd a diod' yw'r mwyaf apelgar ac yna 'chwaraeon gwylwyr byw' a 'gŵyl neu gyngerdd cerddoriaeth fyw'.

**Ffigur 67. Diddordeb mewn mynychu gwyliau ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




F11. Faint o ddiddordeb, os o gwbl, sydd gennych mewn mynychu'r mathau isod o wyliau neu ddigwyddiadau ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cyfansoddiad partïon ymwelwyr ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru

- ‘Partner’ yw’r aelod mwyaf cyffredin a ragwelir o’r parti ar gyfer trip y tu allan i’r tymor yng Nghymru, ac yna ‘plentyn/wyrion/wyresau’ a ‘ffrindiau’.

**Ffigur 68. Cyfansoddiad partïon ymwelwyr ar gyfer trip y tu allan i’r tymor yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr sy’n agored i drip y tu allan i’r tymor yng Nghymru**




F12. Gyda phwy, os o gwbl, fyddech chi fwyaf tebygol o deithio ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yng Nghymru? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Math o lety ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru

- Bwriadwyr yng Nghymru 'y tu allan i'r tymor' fyddai fwyaf tebygol o aros mewn 'gwesty/motel/tafarn', gyda 'gwesty/gwely a brecwast', i'w ddilyn gan 'tŷ/bwthyn ar rent'.

**Ffigur 69. Dewis llety ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




F13. Pa fath/au o lety fyddech chi'n fwyaf tebygol o aros ynddo/ynddynt ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Math o lety ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae cyfnodau bywyd hŷn yn fwy tebygol o aros mewn llety â gwasanaeth, yn enwedig gwestai ar drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru. Mae cyn-nythwyr a theuluoedd yn mynegeio'n uwch ar nifer o wahanol fathau o lety, yn enwedig 'cartref ffrindiau neu berthnasau' a'r rhai sy'n ymwneud â rhentu hunanarlwyo a gwersylla/carafanau.

**Ffigur 70. Y dewis o lety ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




F13. Pa fath/au o lety fyddech chi'n fwyaf tebygol o aros ynddo ar wyliau/gwyliau byr y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sydd â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru Cyn-nythwyr n=76; Teuluoedd n=159; Annibynwyr Hŷn n=126; Ymddeolwyr n=48

# Cyrchfan a ragwelir ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru

- Yn gyson â lefelau cynefindra a lefelau ymweliadau blaenorol, mae Caerdydd yn cael ei hystyried fel y gyrchfan fwyaf apelgar ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru, ac yna Eryri, a Bae Abertawe.

**Ffigur 71. Cyrchfan a ragwelir ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




F14. Pa rai, os o gwbl, o'r meysydd hyn y byddai gennych fwyaf o ddiddordeb mewn ymweld â nhw ar wyliau byr/gwyliau y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hyd trip ac amser yr wythnos

- Byddai dros hanner (56%) o’r rhai sy’n agored i drip y tu allan i’r tymor yng Nghymru yn rhagweld y byddai’n ‘wyliau byr o 1-3 noson’; ychydig o dan 2 o bob 5 (37%) egwyl hirach o 4+ noson.
- Trip penwythnos hir (dydd Gwener i ddydd Llun) yw'r amser a ffefrir ar gyfer cymryd y trip (44% yn nodi hyn), er y byddai dros draean (35%) yn rhagweld y byddai'n cymryd trip ganol wythnos.

**Ffigur 72. Hyd trip y tu allan i'r tymor a ragwelir, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i’r tymor yng Nghymru**




**Ffigur 73. Yr amser o'r wythnos a ragwelir ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru, Canran, Yr holl ymatebwyr sy’n agored i drip**




F15. A fyddech chi'n rhagweld trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)?
F16. A pha amser(au) o'r wythnos fyddech chi'n fwyaf tebygol o gymryd egwyl fer/gwyliau y tu allan i'r tymor yng Nghymru? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru n=409

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
BVA BDRC

# Hyd trip ac amser yr wythnos – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae 'cyn-nythwyr', teuluoedd ac 'annibynwyr hŷn' yn fwyaf tebygol o gymryd gwyliau byr ar drip y tu allan i'r tymor, er bod hyd y trip yn cynyddu gydag oedran, i'r pwynt lle mae'r ymddeolwyr yn ffafrio trip hirach o 4+ noson.
- Mae ymddeolwyr yn mynegi'n sylweddol uwch ar dripiau 'canol wythnos' ac yn is ar 'benwythnosau hir' – yr olaf yn cael ei ffafrio gan gyn-nythwyr a theuluoedd.

**Ffigur 74. Hyd y trip y tu allan i'r tymor a ragwelir yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




**Ffigur 75. Yr amser o'r wythnos a ragwelir ar gyfer trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr sy'n agored i drip y tu allan i'r tymor yng Nghymru**




F15. A fyddech chi'n rhagweld trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)?
F16. A pha amser(au) o'r wythnos fyddech chi'n fwyaf tebygol o gymryd gwyliau byr/gwyliau y tu allan i'r tymor yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sydd â diddordeb mewn trip y tu allan i'r tymor yng Nghymru Cyn-nythwyr n=76; Teuluoedd n=159; Annibynwyr Hŷn n=126; Ymddeolwyr n=48



Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Deall Agweddau at Gynaliadwyedd



# Dadansoddiad o segmentau cynaliadwyedd BVA BDRC

- Mae bwriadwyr tripiau yng Nghymru yn mynegeio’n uwch na’r cyfartaledd ar ‘Hedonyddion cefnog’ – segment sy’n dangos diddordeb mewn materion gwyrdd, ond nad yw’n dilyn ymlaen ag unrhyw ‘gamau gwyrdd’ ac yn blaenoriaethu profiadau (43% o gymharu â 25% ar gyfartaledd).

**Ffigur 76. Dadansoddiad o fwriadwyr Cymru yn ôl segmentau cynaliadwyedd BVA BDRC**




Cwestiynau segment cynaliadwyedd BVA BDRC
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

# Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu

- Mae yna ystod eang o gamau cynaliadwy y mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn credu y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu.
- 'Cyfleoedd ar gyfer ailgylchu neu leihau gwastraff', 'cefnogi'r ardal leol yn rhagweithiol', 'lleihau plastig untro ac 'ymrwymiad i gyrchu neu brynu cynnyrch lleol' yw'r prif flaenoriaethau y mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn meddwl y dylai busnesau twristiaeth roi blaenoriaeth iddynt i ddod yn fwy cynaliadwy.

**Ffigur 77. Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu, Canran, Un ar ddeg Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




G7.Pa 3-4 o'r camau gweithredu canlynol ydych chi'n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd er mwyn dod yn fwy cynaliadwy? G8.A pha 3-4 o'r camau hyn ydych chi'n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd i ddod yn fwy cynaliadwy?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu

- Mae 'darparu opsiwn i optio allan o lanhau ystafelloedd bob dydd' a 'chyflogi pobl o wahanol gefndiroedd' yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau is i fusnesau twristiaeth.

**Ffigur 78. Camau gweithredu cynaliadwy y dylai busnesau twristiaeth eu blaenoriaethu, Canran, Un ar ddeg isaf, Yr holl ymatebwyr**




G7.Pa 3-4 o'r camau gweithredu canlynol ydych chi'n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd er mwyn dod yn fwy cynaliadwy? G8.A pha 3-4 o'r camau hyn ydych chi'n credu sydd bwysicaf i fusnesau twristiaeth eu cymryd i ddod yn fwy cynaliadwy?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Agweddau at gamau gweithredu cynaliadwy unigol ar dripiau domestig

- Mae cefnogaeth eang i ystod o gamau cynaliadwy y gallai ymwelwyr eu cymryd, er mai lleiafrif yn unig sy'n datgan eu bod eisoes yn gwneud y rhain ar wyliau.
- Bwriadwyr tripiau yn y DU sydd fwyaf tebygol o fod 'eisoes yn gwneud' neu 'byddent yn ystyried o ddifrif' 'teithio ar adegau tawel yn lle'r tymor brig', 'defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus' a 'rhoi blaenoriaeth i brynu gan gynhyrchwyr bwyd a diod lleol'.

**Ffigur 79. Agwedd at gamau gweithredu cynaliadwy unigol, Canran, Gan yr Holl Ymatebwyr, Wyth Uchaf, Yr holl ymatebwyr**




G9a.Pa mor debygol fyddech chi o wneud yr 'ymddygiad cynaliadwy' canlynol ar eich gwyliau byr a'ch gwyliau yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Agweddau at gamau gweithredu cynaliadwy unigol ar dripiau domestig

- ‘Cymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth neu wirfoddol’ ac ‘aros mewn llety ecogyfeillgar yn unig’ yw’r camau gweithredu cynaliadwy unigol y mae bwriadwyr tripiau yn y DU yn lleiaf tebygol o ystyried eu gwneud, er bod cefnogaeth iddynt o hyd.

**Ffigur 80. Agweddau at gamau gweithredu cynaliadwy unigol, Canran, Gan yr Holl Ymatebwyr, Wyth isaf, Yr holl ymatebwyr**




G9a.Pa mor debygol fyddech chi o wneud yr ‘ymddygiad cynaliadwy’ canlynol ar eich gwyliau byr a’ch gwyliau yn y DU yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=604

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Atodiad



# Arwyddocâd ystadegol

Mae'r tabl isod yn amlinellu dibynadwyedd ystadegol yr ymatebion i'r arolwg. Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn hollgynhwysfawr ond fe'u dewiswyd i ddangos hyder amrywiol mewn ystod o wahanol feintiau sampl.

| | Darganfyddiad arolwg o… | | |
|---|---|---|---|
| **Sylfaen** | **5 / 95%** | **20 / 80%** | **50 / 50%** |
| Cyfanswm y Sampl (604) | +/- 1.7% | +/- 3.2% | +/- 4.0% |
| Bwriadwyr yng Nghymru y tu allan i'r tymor (409) | +/- 2.1% | +/- 3.9% | +/- 4.8% |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government